

Atodiad A

Urddas a Gofal Hanfodol: Cynllun Gwella

Ysbyty: Ysbyty Nevill Hall

Ward/Adran: Ward Wysg 3/2

Dyddiad yr Arolygiad: 5 a 6 Mawrth 2015

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Ansawdd Profiad y Claf			
Tudalen 9	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o staff ar gael i fodloni anghenion y cleifion, yn arbennig y rheini sydd â dementia ac sydd wedi drysu.	Y gymhareb staffio yw Bore: 5 Nyrs gofrestredig/ 4 Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd Prynhawn: 4 Nyrs gofrestredig / 3 Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd Nos: 2 Nyrs gofrestredig / 2 Weithiwr Cymorth Gofal Iechyd Caiff aciwtedd y ward ei asesu bob dydd ar y cyd â'r uwch-nyrs ac mae staffio yn cael ei addasu yn unol â hyn. Mae barn broffesiynol a chlinigol yn	VW / SH	Ar waith ac yn barhaus

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		cael ei rhoi ar waith i sicrhau bod diogelwch yn cael ei gynnal a'i gadw bob amser. Mae cleifion sydd â nam gwybyddol yn cael eu hasesu yn unigol a phe bai angen iddynt dderbyn gofal uwch fe fydd Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd ychwanegol yn cael ei drefnu i fynd i'r afael â hyn.		
Tudalen 10	Dylai'r bwrdd iechyd ystyried a yw nifer y staff cadw tŷ yn y bore yn ddigonol er mwyn sicrhau bod ystafelloedd ymolchi yn cadw'n lân a thaclus at ddefnydd y cleifion.	Mae nifer yr oriau glanhau wedi cael eu hadolygu ac rydym ar fin cyflwyno aelod newydd o staff i'r ward drwy'r broses recriwtio er mwyn sicrhau bod yr ystafelloedd ymolchi yn cael eu cadw'n lân bob amser. Yn y cyfamser, mae'r ystafelloedd ymolchi'n cael eu gwirio'n rheolaidd.	KW	Mehefin 2015
Cyflenwi Hanfodion Gofal				
Tudalen 11	Dylai'r staff sicrhau eu bod yn defnyddio'r dulliau sydd ar gael iddynt i'w helpu i gyfathrebu â chleifion sydd wedi colli eu clyw a'r rhai sydd ag anghenion cyfathrebu ychwanegol, a hynny mewn ffordd briodol a diffwdan.	Mae'r system dolen sain ar waith ar y ward erbyn hyn, ac mae pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i'w defnyddio.		Cwblhawyd
Tudalen 11	Dylid diweddarw taflenni gwybodaeth i sicrhau bod gan gleifion a pherthnasau fynediad at wybodaeth gywir.	Diweddarwyd y taflenni gwybodaeth ar ddiwrnod yr ymweliad. Neilltuwyd y cyfrifoldeb o ddiweddarw'r wybodaeth hon i glerc y ward, a dylid ymgymryd â'r dasg bob pythefnos.	VW Clerc y Ward	Cwblhawyd

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Tudalen 12	Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r modd mae staff yn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion yn yr ystafelloedd ymolchi a thoiledau a sicrhau bod sgriniau a dulliau addas yn cael eu defnyddio.	Mae llenni ar gael o amgylch pob sinc yn yr ystafelloedd ymolchi Gosodwyd arwydd ar bob drws toiled i nodi ei fod yn brysur pan fydd y staff yn mynd â'r cleifion i'r thoiledau / ystafell gawod Defnyddir pegiau preifatrwydd yn y cilfannau a'r ystafelloedd ochr Caiff yr arfer ei harchwilio'n fisol	VW	Cwblhawyd
Tudalen 12	Dylai'r staff sicrhau eu bod yn annerch y cleifion wrth eu dewis enw.	Mae hwn wedi'i nodi ar gofnodion mynediad y claf ac mae dewis enw'r claf hefyd wedi'i nodi ar daflenni trosglwyddo'r ward. Wrth gyfarfod â'r cleifion, mae'r staff hefyd yn gofyn iddynt sut fyddent yn hoffi cael eu cyfarch.	VW	Cwblhawyd
Tudalen 13	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion yn cael eu hannog i fod mor annibynnol â phosibl gyda'u harferion dyddiol.	Cyfarfod dyddiol y Tîm amlddisgyblaeth o ddydd Llun hyd at ddydd Gwener lle mae'r nyrsys, y ffisiotherapyddion a'r therapydd galwedigaethol yn cytuno ar dargedau ar gyfer cleifion unigol. Caiff hyn ei ymgorffori i mewn i gynlluniau gofal i hyrwyddo a chefnogi annibyniaeth. Mae'r broses o ddefnyddio matiau bwrdd rhag i blatiau'r cleifion lithro ar waith yn ystod amserau bwyd.	VW	Cwblhawyd

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Tudalen 14	Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut i wneud amgylchedd y ward mor hygyrch â phosibl i gleifion â dryswch/dementia ac anghenion cymhleth neu synhwyaidd, yn enwedig o ystyried y math o gleifion a dderbynnir i'r ward erbyn hyn	Gwelsom fod cynlluniau ar waith i wella'r amgylchedd er mwyn rhoi cymorth i gleifion sydd â dementia. Mae'r offer a archebwyd ar gyfer yr ystafell ddydd yn cynnwys clociau dementia, lliain bwrdd ar gyfer gweithgareddau, lluniau, llyfrau, ystafell 1950au 'dros dro', chwaraewr DVD, DVDau i wella'r cof a chadeiriau cyfforddus electronig sy'n gogwyddo.	VW	Mehefin 2015
Tudalen 15	Dylid defnyddio dulliau asesu poen mewn modd cyson er mwyn cofnodi ac asesu lefelau poen y cleifion yn fanwl gywir, ac i sicrhau y cânt eu rheoli a'u huwchgwyfeirio'n briodol.	Rhoddir sgôr asesiad poen ar y siart Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol ac fe'i hasesir yn rheolaidd. Pwysleisiwyd i'r staff y dylid trafod y boen, ei chofnodi a gweithredu arni yn ystod y rowndio bwriadol sy'n para 1-2 awr. Gwneir atgyfeiriadau prydlon i'r tîm poen yn dilyn asesiad, pan fydd angen.	VW	Mehefin 2015
Tudalen 17	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion yn cael asesiad llawn a chyson o'u hanghenion maeth er mwyn i'w hanghenion a'u risgiau gael eu rheoli mewn modd diogel a phriodol. Dylai siartiau bwyd a hylif gael eu gweithredu'n briodol, a'u diweddarau a'u monitro'n gyson.	Cwblheir sgôr MUST wrth iddynt gael eu derbyn a nodir diweddariadau wrth i'r cyflwr newid, fel arall, yn wythnosol. Atgyfeiriad at ddietydd/ dechrau ar lwybr diffyg chwant bwyd os nodwyd hynny gan sgôr MUST. Mae siartiau bwyd a hylif Cymru Gyfan ar waith ac maen nhw'n cael eu harchwilio bob mis.	VW	Cwblhawyd

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		Defnyddir system hambwrdd coch er mwyn atgoffa am yr angen i gofnodi cymeriant bwyd. Bydd aelod o staff fod yn bresennol ym mhob cilfan yn ystod amserau bwyd. Lle bo'n bosibl, caiff pob claf ei bwysu wrth iddo gyrraedd neu ymgymrir ag asesiad Mynegai Màs y Corff. Adolygir yn wythnosol neu wrth i'r cyflwr newid.		
Tudalen 17	Dylid annog cleifion i olchi eu dwylo cyn bwyta er mwyn lleihau'r perygl o groes-heintio.	Mae gan bob cilfan glytiau diheintio ac atgoffir y staff i gynnig clytiau diheintio cyn bwyta. Mae aelod penodedig o staff bellach wedi'i neilltuo ar gyfer pob cilfan, yn ystod bob pryd bwyd.	VW	Cwblhawyd
Tudalen 18	Dylai'r ward adolygu'r dull o ddosbarthu prydau â chloriau metel arnynt i'r cleifion, a'r risg i iechyd a diogelwch a berir gan yr arfer hon.	Bellach defnyddir matiau bwrdd rhag i blatiau'r cleifion lithro Ar hyn o bryd mae'r ward yn ystyried treialu cloriau gwahanol, addas yn hytrach na'r rhai metel. Yn y cyfamser, rhoddwyd mesurau ar waith, gan gynnwys darparu menig cotwm ar gyfer gweini bwyd.	PR	Cwblhawyd
Tudalen 18	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod anghenion iechyd y geg cleifion yn cael eu hasesu'n rheolaidd a'u rheoli'n briodol i sicrhau iechyd da yn y geg.	Dylid cyflwyno bwndel y geg i'r ward.	VM / SH /CH	Mehefin 2015

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Tudalen 19	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gleifion yn derbyn asesiad llawn a chyson o'u hanghenion ymataliaeth fel bod eu hanghenion a'u risgiau yn cael eu rheoli'n briodol ac yn ddiogel.	Mae pob claf yn cael ei asesu wrth iddo gael ei dderbyn ac mae ei anghenion yn cael eu bodloni yn unol â'r asesiad hwn. Ail ystyrir y bwndeli ymataliaeth er mwyn cynyddu cydgordiad. Caiff y broses o gwblhau dogfennaeth ac ymlyniad wrth y bwndel eu harchwilio bob mis.	VM	Mai 2015
Tudalen 19	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y gall staff ymateb yn brydlon i alwadau cleifion am gael mynd i'r toiled.	Mae staff yn ymwybodol o'r angen i ateb clychau galw yn brydlon. Mae rowndio bwriadol ar waith.	VW a Thîm Rheolaeth y Ward	
Tudalen 20	Dylai asesiadau Waterlow gael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd mewn ymateb i anghenion cyfnewidiol y cleifion, i sicrhau bod anghenion a risgiau'r cleifion yn cael eu rheoli'n briodol ac yn ddiogel.	Mae sgoriau Waterlow yn cael eu hasesu wrth i'r claf gael ei dderbyn a phan fydd y cyflwr yn newid. Gweithredir yn unol â'r sgôr. Atgoffwyd staff y ward am bwysigrwydd diweddarau dogfennaeth. Mae gwiriadau wythnosol bellach ar waith er mwyn gwirio cydymffurfedd. Mae matresi pwysedd ar gael, a chlustogau pwysedd yn yr un modd. Mae bwndeli SKIN yn cael eu defnyddio. RCA ar gyfer HAPU	VW	Cwblhawyd

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth			
Tudalen 21	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod y lefelau staffio'n bodloni canllawiau Prif Swyddog Nyrsio Cymru ar gyfer lefelau staffio diogel.	Recriwtio parhaus ar gyfer y ward. I sicrhau lefelau staffio diogel penodwyd yr hyn sy'n cyfateb i 1.4 nyrs gofrestredig, i ddechrau ym mis Ebrill ac ym mis Mai. 1.0 nyrs gofrestredig ar secondiad i'r ward am chwe mis. Hyd nes bod staff yn cael eu penodi, mae swyddi gwag yn cael eu llenwi gan nyrsys banc, goramser a sifftiau asiantaethau. Nid oes swyddi gwag gweithwyr cymorth gofal iechyd ar gael ar hyn o bryd	VW / SH / LA	Mai 2015
Tudalen 22	Dylai fod gan brif nyrs y ward fynediad at amser ychwanegol neilltuedig er mwyn cyflawni ei chyfrifoldebau rheoli.	Yn gweithio tuag at fodloni Lefelau Diogel Staff Nyrsio Cymru Gyfan er mwyn rhyddhau prif nyrs y ward fel y gall ymgymryd â rôl oruchwyliol. Lle bo'n bosibl, ar hyn o bryd mae amser ychwanegol yn cael ei lenwi gan staff banc. (gweler uchod)	VW / SH/ LA	Mai 2015
Tudalen 22	Dylid adleoli'r byrddau 'cipolwg ar ddiogelwch cleifion' fel nad ydynt yn weladwy o fannau cyhoeddus, er mwyn diogelu cyfrinachedd y cleifion.	Gan mai dyma'r ardal fwyaf priodol er mwyn i aelodau'r tîm amlddisgyblaeth weld y byrddau 'cipolwg ar ddiogelwch cleifion', archebwyd byrddau newydd â drysau iddynt i warchod cyfrinachedd cleifion.	VW	Mehefin 2015
Tudalen 24	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth am wneud cwynion ar gael yn	Mae poster wedi'i arddangos ym mynedfa'r ward ynghyd â'r daflen 'Mynegi eich Pryderon'	VW	Cwblhawyd

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	gyfleus i gleifion a pherthnasau.	Prynwyd stoc newydd o daflenni ac maen nhw i'w gweld ac ar gael ar y ward. Mae hyn bellach yn gyfrifoldeb i glerc y ward.		
Tudalen 24	Dylid asesu, blaenoriaethu ac ymdrin â phryderon a chwynion y cleifion mewn modd amserol.	Mae prif nyrs y ward neu ei dirprwy ar gael bob dydd i drafod pryderon sy'n ymwneud â chleifion a'r teulu. Diwylliant tîm y ward yw i fynd i'r afael â phryderon yn amserol. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn anelu at fodloni'r amserlen a nodir yn 'Gweithio i Wella'.	VW / SH ar gyfer cwynion sy'n ymwneud â nyrsio a'r amgylchedd JP - meddygol	Parhaus
Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol				
Tudalen 25	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod digwyddiadau yn cael eu hadrodd a'u hadolygu mewn modd amserol.	Mae'r holl ddigwyddiadau yn cael eu cofnodi ar y briffiau diogelwch ac atgoffir staff am yr angen i gwblhau cofnodion unrhyw ddigwyddiadau erbyn diwedd eu sifft. Adolygiad gan brif nyrs y ward bob dydd.	VW	Cwblhawyd
Tudalen 26	Dylai holl bolisiâu'r bwrdd iechyd fod ar gael yn gyfleus i'r staff ar y ward.	Yn gyffredinol, mae polisiâu ar gael yn hawdd i staff y ward. O ran rhai polisiâu sy'n ymwneud â meddyginiaethau, a fydd o bosibl angen eu diweddarau'n fwy rheolaidd, mae'r rhain ar gael wrth y fferyllydd yn ôl y gofyn a thrwy fwletinau rheolaidd i glinigwyr. Mae'r holl staff yn	VW	Mai 2015

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		ymwybodol o ble i ganfod polisïau drwy'r fewnrwyd.		
Tudalen 28	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod prosesau ar waith i dynnu meddyginiaethau ymaith pan fyddont wedi pasio'u dyddiad dod i ben.	Mae gwiriadau wythnosol cyffuriau ar waith ac mae 'bin glas' bellach yn cael ei ddefnyddio i waredu ar feddyginiaethau pan fydd eu dyddiad wedi dod i ben. Caiff lefelau stoc eu hadolygu er mwyn lleihau'r risg o gadw cyffuriau sydd â'u dyddiad wedi dod i ben	VW / GR	Cwblhawyd
Tudalen 28	Dylid storio ocsigen yn ddiogel yn unol â'r rheoliadau perthnasol.	Mae rheseli newydd at ddibenion storio bellach wedi cael eu gosod ac wedi'u cloi yn yr ystafell driniaeth.	VW	Cwblhawyd
Tudalen 29	Dylid cofnodi penderfyniadau 'Na Cheisier Dadebru' mewn un lle cyson lle bydd staff yn gwybod lle i gael gafael arno.	Yn unol â chanllawiau cyfreithiol Cymru Gyfan, mae 'Na Cheisier Dadebru' yn cael ei gofnodi ar ffurflen Cymru Gyfan, yn ogystal ag ar nodiadau meddygol a nodiadau nyrsio. Bellach mae'r ffurflen Cymru Gyfan a gyflwynwyd yn ddiweddar wedi'i lliwio yn ôl codau ac mae hyn yn hwyluso'r defnydd a wneir ohoni. Er mwyn helpu'r cyfathrebu, mae hefyd yn cael ei gofnodi ar y ffurflen drosglwyddo a'r ffurflen briffio er diogelwch.	VW	Cwblhawyd
Tudalen	Dylid adolygu cynlluniau gofal ac asesiadau	Mae asesiadau risg yn cael eu cwblhau wrth	VW	Cwblhawyd

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
30	risg yn rheolaidd, a'u diweddarau i adlewyrchu newidiadau i anghenion, gofal a thriniaethau'r claf. Dylai'r cynlluniau gofal sicrhau bod anghenion cleifion yn cael eu rheoli fesul claf.	iddynt gael eu derbyn ac maen nhw'n cael eu hail-asesu wrth i'r cyflwr newid. Mae gwiriadau wythnosol y cynlluniau gofal bellach ar waith. Mae cynlluniau gofal craidd yn cael eu haddasu'n rheolaidd er mwyn bodloni anghenion unigol y claf, ac fe'u hadolygir bob wythnos.		
Tudalen 30	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau risg a chynlluniau gofal perthnasol yn cael eu gweithredu a'u hadolygu. Dylai fod systemau ar waith sy'n dynodi pryd na wnaed hyn, a datrys hynny.	Mae prif nyrs y ward yn adolygu'r ddogfennaeth bob wythnos. Cynhelir archwiliadau Ymddiried Mewn Gofal bob mis.	VW / SH	Cwblhawyd
Tudalen 31	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan bob claf diabetig gynlluniau gofal ac asesiadau risg clir ar waith er mwyn i staff eu dilyn ac i sicrhau y gall gofal gael ei werthuso a'i fod yn briodol.	Mae gan bob claf diabetig gynllun gofal unigol sy'n cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn unol â'r newidiadau i'r driniaeth a hefyd yn unol ag archwiliad ac adolygiad wythnosol.	VW	Cwblhawyd
Tudalen 31	Dylai anghenion a risgiau maeth cleifion diabetig gael eu hasesu a'u rheoli'n gyson.	. Ar ôl iddynt gael eu derbyn, mae anghenion maethol cleifion diabetig yn cael eu hasesu. Os yw'n ofynnol yn ôl asesiad y claf neu ar gais y claf, gwneir atgyfeiriad i'r dietegydd a/neu'r tîm diabetig ar gyfer arweiniad penodol ar reoli diabetes.	VW	Mehefin 2015

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		Derbyniwyd hyfforddiant ychwanegol wrth y nyrs cyswllt diabetig ar gyfer holl staff y ward. Cynigir bwydlenni i'r holl gleifion diabetig i gyd-fynd â rheolaeth eu diabetes. Mae bwydlenni byrbrydau ar gael ar gyfer yr holl gleifion diabetig a nodir hynny ar y daflen drosglwyddo. Mae staff domestig y gegin hefyd yn cael eu hysbysu ynghylch pwy yw'r cleifion diabetig.		

Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:

Enw (llythrennau bras): Denise Llewellyn

Teitl: Cyfarwyddwr Nyrsio

Dyddiad: 30 Ebrill 2015.